# Canllawiau Ymgeisio

Garfield Weston FOUNDATION

**Rydym wedi ymrwymo i gefnogi elusennau gwych sy'n gwneud gwaith pwysig. Darllenwch y canllawiau hyn yn ofalus i'ch helpu i baratoi eich cynnig i ni. Maent yn cynnwys y canlynol:**

- yr hyn rydyn ni'n ei ariannu – y mathau o sefydliad a'r gwaith rydym/nad ydym yn ei ariannu
- ein grantiau
- y broses ymgeisio
- ffurf y cynnig ar gyfer Grantiau Arferol a Grantiau Mawr
- beth sy'n digwydd nesaf

## Yr hyn rydyn ni'n ei ariannu

### Mathau o sefydliadau yr ydym yn eu hariannu

Rydyn ni'n ariannu sefydliadau sy'n gweithio yn y meysydd canlynol:

- Celfyddydau
- Cymuned
- Addysg
- Amgylchedd
- Ffydd
- Iechyd
- Amgueddfeydd a Threftadaeth
- Lles
- Ieuenctid

Peidiwch â phoeni os yw'ch sefydliad yn gweithio mewn mwy nag un o'r meysydd hyn. Nid ydym yn clustnodi arian ar gyfer meysydd gwaith penodol neu ranbarthau daearyddol. Mae gan unrhyw sefydliad cymwys sy'n bodloni ein meini prawf cyllido siawns deg o gael ei ariannu.

Rydyn ni'n cefnogi sefydliadau sy'n un o'r canlynol:

- elusennau cofrestredig yn y DU
- sefydliadau corfforedig elusennol (CIOs)
- wedi'u heithrio o dan ganllawiau'r Comisiwn Elusennau

I wirio a yw'ch sefydliad yn cyfateb i'n proses ariannu, cwblhewch ein Cwis Cymhwysedd ar-lein

## Mathau o sefydliadau nad ydym yn eu hariannu

Rydyn ni'n dilyn canllawiau'r Comisiwn Elusennau ar sefydliadau sydd wedi'u cofrestru, wedi'u heithrio. Mae hyn yn golygu nad ydym yn gallu ariannu'r canlynol:

- unigolion
- cwmnïau buddiannau cymunedol (CICs)
- cymdeithasau budd cymunedol
- mentrau cymdeithasol
- awdurdodau lleol a chynghorau

Rydyn ni'n cefnogi elusennau sydd â gwerth o leiaf blwyddyn o gyfrifon blynyddol. Mae hyn yn golygu, er mwyn bod yn gymwys i wneud cais, bydd angen i chi gyflwyno un o'r canlynol:

- eich cyfrifon blynyddol, wedi'u hadolygu neu eu harchwilio'n annibynnol
- copi o'ch ffurflen flynyddol y Comisiwn Elusennau

Os nad oes gennych gyfrifon eto, arhoswch nes bod gennych rai gan fod eich hanes ariannol yn rhan bwysig o'n penderfyniadau.

## Gwaith nad ydym yn ei ariannu

Nid ydym yn gallu ariannu'r gweithgareddau neu'r meysydd gwaith canlynol:

- digwyddiadau untro neu flynyddol fel galas neu wyliau, hyd yn oed os ydynt at ddibenion codi arian
- digwyddiadau tymor byr sy'n rhedeg am ychydig wythnosau yn unig
- nawdd
- astudiaethau dichonoldeb
- apeliadau codi arian generig neu drwy'r post torfol
- gweithgaredd sy'n digwydd y tu allan i'r DU (ac eithrio Tiriogaethau Tramor y DU, lle gellir cefnogi prosiectau)
- sefydliadau a gwasanaethau achub ac argyfwng, e.e. ambiwlansys achub mynydd/môr ac awyr
- teithiau rhyngwladol ac apeliadau brys
- gweithiau celf cyhoeddus neu henebion

- apeliadau gwaddol
- ymgyrchu a lobïo os mai dyna yw prif weithgaredd neu bwrpas eich sefydliad
- gwneuthurwyr grantiau neu sefydliadau eraill sy'n rhoi grantiau i unigolion
- sefydliadau achub anifeiliaid neu lochesi anifeiliaid
- gweithgareddau sydd eisoes wedi digwydd neu brosiectau sydd eisoes wedi'u cwblhau
- cyflogau unigol ar gyfer swyddi penodol*

*Nid ydym yn gallu ariannu cyflogau ar gyfer swyddi penodol, e.e. eich Rheolwr Gweithrediadau. Y rheswm am hyn yw, os nad ydym yn gallu rhoi grant arall, nid ydym am roi aelod o'ch staff mewn perygl. Rydyn ni'n gwneud grantiau ar gyfer costau gweithredu/craidd sy'n gallu mynd tuag at eich costau rhedeg cyffredinol, gan gynnwys eich costau cyflogau cyffredinol.

Mae rhagor o wybodaeth yn ymwneud â'r mathau canlynol o sefydliadau. Os yw'r rhain yn berthnasol i chi, edrychwch ar yr adran Cwestiynau Cyffredin ar ein gwefan.

- prifysgolion
- ysgolion
- elusennau ymchwil feddygol
- hosbisau
- elusennau cwnsela

## Ein grantiau

Mae'r mathau o grant a wnawn yn dod o dan un o dri maes:

- costau gweithredu/craidd
- prosiectau cyfalaf
- prosiectau/gweithgareddau penodol

Rydyn ni'n argymell eich bod yn gofyn am yr hyn sydd ei angen fwyaf ar eich sefydliad. Yn ein profiad ni, mae hyn yn tueddu i wneud cais cryfach.

Pa bynnag fath o grant rydych chi'n gwneud cais amdano, darllenwch bob adran o'r canllawiau hyn i ddeall beth Rydyn ni'n chwilio amdano a maint tebygol y grant.

## Grantiau gweithredu/costau craidd

### Beth yw eu pwrpas?

Mae'r grantiau hyn ar gyfer costau rhedeg cyffredinol eich sefydliad. Mae hyn yn golygu y gellir eu defnyddio i helpu i dalu eich biliau neu rent a darparu cymorth tuag at eich cyflogau.

Nid ydym yn defnyddio'r term 'heb gyfyngiadau' gan na ellir rhoi ein grantiau gweithredu/costau craidd tuag at waddol neu adeiladu cronfeydd wrth gefn eich sefydliad.

### Beth sydd angen i mi ei ystyried?

Gellir rhoi grantiau gweithredu/cost craidd am flwyddyn, neu dros ddwy neu dair blynedd – rydyn ni'n galw'r rhain yn grantiau aml-flwyddyn. Rydyn ni’n fwy tebygol o roi grant aml-flwyddyn os ydym wedi ariannu eich sefydliad o'r blaen ac yn deall effaith eich gwaith.

### Faint yw grantiau costau gweithredu/craidd?

Os yw'n llwyddiannus, rydyn ni’n gyffredinol yn cefnogi tua 10–20% o gyfanswm cyllideb flynyddol y sefydliad.

## Grantiau prosiect cyfalaf

### Beth yw eu pwrpas?

Mae 'cyfalaf' yn golygu gwaith adeiladu neu atgyweiriadau, neu offer sy'n angenrheidiol ar gyfer gwaith eich sefydliad.

### Beth sydd angen i mi ei ystyried?

Os ydych chi'n gwneud cais am waith adeiladu neu atgyweiriadau, ystyriwch y canlynol.

- Dylid sicrhau unrhyw ganiatâd cynllunio perthnasol cyn i chi wneud cais i ni. Os ydych chi'n gwneud cais am waith ar adeilad crefyddol, rydyn ni’n disgwyl y bydd caniatâd gan y sefydliad neu debyg hefyd yn ei le.
- Os nad ydych chi'n berchen ar eich adeilad, mae'n annhebygol y byddwn yn rhoi grant oni bai bod gennych o leiaf 20 mlynedd o hyd ar eich prydles.
- Beth mae eich sefydliad yn ei wneud i wella effeithlonrwydd amgylcheddol eich adeilad? Os ydych chi'n gweithio tuag at ardystiad ynni neu amgylcheddol penodol (e.e. BREEAM), dywedwch wrthym.
- Sut bydd eich prosiect cyfalaf yn effeithio ar gostau gweithredu parhaus eich sefydliad? Er enghraifft, a fydd adeilad mwy yn costio mwy i chi ei weithredu? Os felly, dywedwch wrthym sut y byddwch chi'n talu am y costau cynyddol hyn. Os gall eich prosiect cyfalaf arwain at arbedion o ran costau, soniwch am hynny!
- Pwy fydd yn rheoli eich prosiect cyfalaf? Soniwch am eu profiad perthnasol.
- Nid oes angen copïau o ddyfynbrisiau ar gyfer prosiectau cyfalaf ond rydyn ni’n disgwyl i chi gael amcangyfrifon/cyllidebau cyfredol. Ni ddylent fod yn fwy na thri mis oed, lle bo'n bosibl.
- Rydyn ni’n disgwyl gweld arian wrth gefn priodol yng nghyllideb eich prosiect a fydd yn helpu os bydd costau eich prosiect yn cynyddu neu os bydd y prosiect yn cael ei ohirio.
- Dylech gynnwys o leiaf un llun o’r tu allan ac un llun o’r tu mewn i'r adeilad rydych chi'n gwneud cais amdano yn eich cynnig. Mae'n helpu i ddod â'ch prosiect yn fyw i ni.
- Rydyn ni’n disgwyl gweld tystiolaeth o weithgarwch codi arian lleol i ddangos ymrwymiad eich cymuned tuag at eich prosiect.

### Faint yw grantiau prosiect cyfalaf?

- Rydyn ni’n disgwyl i chi fod wedi sicrhau tua 50% o gyllid cyfalaf cyn dod atom. Mae ein cefnogaeth yn tueddu i fod tua 10–20% o'ch costau cyfalaf.

- Ar gyfer prosiectau cymunedol lleol (e.e. neuaddau pentref, canolfannau cymunedol, mannau addoli, ac ati), mae'n debygol na fydd grantiau yn fwy na £30,000 waeth beth yw maint y prosiect.

## Grantiau prosiect/gweithgareddau penodol

**Beth yw eu pwrpas?**

Mae'r grantiau hyn ar gyfer prosiect neu faes penodol o'ch gwaith. Bydd ganddo gwmpas ac amserlen ddiffiniedig, er enghraifft:

- prosiect allgymorth theatr gyda chymunedau dros gyfnod o naw mis
- gwasanaeth cynghori a gwybodaeth sefydliad iechyd dros ddwy flynedd

**Beth sydd angen i mi ei ystyried?**

Rydyn ni am ddeall yr holl gostau sy'n gysylltiedig â chyflawni eich prosiect, gan gynnwys deunyddiau a chyfraniad rhesymol at gostau craidd neu orbenion eich sefydliad (hyd at 15%).

**Faint yw grantiau prosiect?**

Rydyn ni'n disgwyl i chi fod wedi sicrhau tua 50% o gyllid eich prosiect cyn dod atom. Mae ein cefnogaeth yn tueddu i fod tua 10–20% o'ch costau.

# Y broses ymgeisio

P'un a ydych chi'n chwilio am gostau gweithredu/craidd neu arian ar gyfer prosiect, gallwch wneud cais naill ai am Grant Arferol (o dan £100,000) neu Grant Mawr (£100,000 a throsodd). Mae'r adrannau canlynol yn dweud wrthych beth yw'r broses ar gyfer pob un o'r rhaglenni grant hyn.

## Grant Arferol – llai na £100,000

Os oes gennych ddiddordeb mewn gwneud cais am Grant Arferol, cwblhewch ein Cwis Cymhwysedd ar ein gwefan i wirio bod eich sefydliad yn gymwys. Os yw'ch sefydliad yn gymwys, cwblhewch ein ffurflen gais ar-lein a chyflwynwch eich cynnig. Gellir dod o hyd i fanylion am sut i wneud hyn yma.

- Rydyn ni'n agored i geisiadau drwy gydol y flwyddyn ac nid oes unrhyw ddyddiadau cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau.
- Byddwn yn cysylltu os oes gennym unrhyw gwestiynau am eich cais. Ar hyn o bryd mae cynnydd sylweddol yn nifer y ceisiadau, a byddwn yn anelu at gysylltu â chi i roi gwybod am ein penderfyniad o fewn 4–6 mis. Rydyn ni'n gwerthfawrogi eich amynedd yn ystod y cyfnod hwn. Byddwn yn cysylltu â chi i roi gwybod beth yw ein penderfyniad drwy e-bost felly gwnewch yn siŵr bod gennym fanylion cyswllt cyfredol ar gyfer eich sefydliad bob amser.

## Grant Mawr – £100,000 a throsodd

Mae grantiau o £100,000 a throsodd yn rhan o'n Grantiau Mawr ac mae'r rhain yn cael eu hystyried gan ein Hymddiriedolwyr yn un o wyth cyfarfod Bwrdd y flwyddyn.

Er mwyn cael eich ystyried ar gyfer Grant Mawr, rhaid i'ch sefydliad naill ai fod ag incwm blynyddol o dros £1 miliwn, neu rhaid i gyfanswm eich costau prosiect neu gyfalaf fod dros £1 miliwn.

Mae’r mathau canlynol o grantiau ar gael:

- Costau cyfalaf neu brosiect: rhaid i gyfanswm cost eich prosiect (cyfalaf neu refeniw) fod o leiaf £1 miliwn waeth beth yw incwm blynyddol eich sefydliad.
- Costau craidd: ar gyfer y math hwn o grant, rhaid i incwm blynyddol eich sefydliad fod o leiaf £1 miliwn. Dylid defnyddio'r grantiau hyn i gefnogi costau rhedeg cyffredinol.

Os oes gennych ddiddordeb mewn gwneud cais am Grant Mawr, cwblhewch ein Cwis Cymhwysedd ar ein gwefan i wirio bod eich sefydliad yn gymwys. Os yw'ch sefydliad yn gymwys, cwblhewch ein Ffurflen Mynegi Diddordeb ar-lein, lle gofynnir ychydig o gwestiynau i chi am yr hyn y mae eich sefydliad yn ei wneud, ar gyfer beth y mae'n codi arian, faint mae'r prosiect yn ei gostio, beth yw'r diffyg ac unrhyw amseroedd perthnasol. Gellir dod o hyd i fanylion am sut i wneud hyn yma.

Gallwch gyflwyno cais i Fynegi Diddordeb drwy gydol y flwyddyn ac nid oes dyddiadau cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau. Bydd pob cais sy’n Mynegi Diddordeb yn cael ei adolygu'n ofalus ar sail dreigl a byddwn mewn cysylltiad i ddweud beth yw'r camau nesaf. Os bydd eich cais i Fynegi Diddordeb yn cael ei dderbyn, yna byddwch yn cael eich gwahodd i gyflwyno cynnig llawn (gweler y manylion llawn isod) i'w ystyried yn un o'n cyfarfodydd bwrdd

## Ffurf y cynnig ar gyfer Grantiau Arferol a Grantiau Mawr

Nodyn: Mae'r canllawiau hyn wedi'u hysgrifennu yn Gymraeg i'ch cymorth gyda'ch cais, ond **yn anffodus nid ydym yn derbyn ceisiadau a ysgrifennwyd yn y Gymraeg**. Os gwelwch yn dda gofynnwn i chi gyflwyno eich cais mewn Saesneg clir a syml.

Rydyn ni eisiau clywed am eich gwaith yn eich geiriau eich hun yn hytrach na gofyn i chi lenwi ffurflen hir, gymhleth. Rhaid i’ch:

- cynnig fod yn ddogfen wedi'i theipio - uchafswm o 10 tudalen o A4, mewn maint ffont heb fod yn llai nag 11 pwynt – os gallwch ddweud wrthym bopeth sydd ei angen arnom mewn llai o dudalennau, gwnewch hynny
- eich bod yn cynnwys yr holl wybodaeth yn y ddogfen hon – ni allwn dderbyn atodiadau
- eich bod yn cadw'r cynnig fel dogfen PDF neu Word

Darllenwch yr adran hon yn ofalus fel eich bod chi'n gwybod beth i'w gynnwys yn eich cynnig.

### Crynodeb gweithredol

Mewn un neu ddau baragraff, crynhowch eich cynnig trwy amlinellu:

- beth mae eich sefydliad yn ei wneud
- yr angen y mae'n mynd i'r afael ag ef
- lle rydych chi'n gweithio

- ble’r ydych chi’n gweithio
- faint o bobl y mae eich sefydliad neu brosiect yn eu cefnogi
- y gwahaniaeth y mae'n ei wneud
- yr hyn rydych chi'n gofyn i ni amdano

## Eich gwaith

Nid oes rhaid i chi ddefnyddio'r penawdau penodol hyn, ond gwnewch yn siŵr eich bod yn cynnwys y pwyntiau canlynol.

### Angen

- Pa angen y mae eich sefydliad yn mynd i'r afael ag ef? Pam fod hyn yn bwysig?
- Sut mae eich gwaith yn mynd i'r afael â'r angen hwn: beth ydych chi'n ei wneud, pa wasanaethau ydych chi'n eu darparu?

### Cyrhaeddiad ac effaith

- Beth yw effaith eich sefydliad, pa wahaniaeth ydych chi'n ei wneud a sut ydych chi'n ei fesur?
- Pwy sy'n elwa o'ch gwaith a sut?
- Tua faint o bobl ydych chi'n eu cefnogi?

### Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

- Beth yw ymagwedd eich sefydliad at Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant?
- Sut mae hyn yn llywio eich gwaith? Gall hyn fod mewn perthynas â'ch lleoliad a/neu bobl rydych chi'n eu cefnogi.

### Partneriaethau

Rydyn ni’n gwerthfawrogi y gall partneriaethau arwain at wasanaethau gwell a mwy o bobl yn cael mynediad at y cymorth sydd ei angen arnynt. Os ydych chi'n cydweithio neu mewn partneriaeth â sefydliadau eraill, dywedwch wrthym.

### Astudiaethau achos

Gall astudiaethau achos a delweddau helpu i ddod â'ch cais yn fyw a dangos effaith gwaith eich sefydliad. Mae croeso i chi eu cynnwys. Pan fyddwch chi'n cyflwyno'ch cais ar-lein, gallwch ddarparu dolen i fideo, e.e. YouTube, sy'n dangos gwaith eich sefydliad.

## Eich pobl

Mae'r sector gwirfoddol yn llawn o bobl brofiadol ac angerddol iawn. Dylech gynnwys paragraff am brofiad eich uwch dimau a'r sgiliau y mae eich Ymddiriedolwyr yn cyfrannu i'ch sefydliad.

## Eich cyllid

Mae'r rhan hon o'ch cynnig yn hynod o bwysig. Mae angen i ni ddeall:

- bod gennych gynllun cadarn i ariannu eich gwaith
- o ble mae'ch cyllid yn dod – gan gynnwys faint o incwm wedi'i sicrhau sydd gennych
- a ydych yn dibynnu ar ffynonellau ariannu penodol
- a yw eich cymuned leol yn cefnogi eich gwaith (lle bo hynny'n berthnasol)

Rydyn ni'n annog sefydliadau i gael amrywiaeth o ffynonellau incwm a pheidio â dibynnu ar unrhyw un ffynhonnell neu gyllidwr.

### Incwm rhagamcanedig a gwariant wedi'i gynllunio

Pa fath bynnag o grant rydych chi'n gwneud cais amdano, mae angen i ni weld incwm rhagamcanedig eich sefydliad a'r gwariant arfaethedig ar gyfer eich blwyddyn i ddod. Gall fod yn flwyddyn ariannol neu galendr, pa un bynnag rydych chi'n ei ddefnyddio at eich dibenion cynllunio. Mae gofynion ychwanegol, yn dibynnu ar eich cais.

- Os ydych chi'n gwneud cais am grant aml-flwyddyn, mae angen i ni weld eich incwm rhagamcanedig a'ch gwariant arfaethedig ar gyfer pob blwyddyn y mae eich cais yn cyfeirio ato.
- Os ydych chi'n gwneud cais am brosiect neu grant cyfalaf, mae angen i ni ddeall cyfanswm costau eich prosiect a faint o incwm rydych chi wedi'i sicrhau hyd yma.

Rydyn ni'n awgrymu eich bod yn darparu dau dabl, un ar gyfer eich incwm rhagamcanedig a'r llall ar gyfer eich gwariant arfaethedig.

*Incwm rhagamcanedig*

Mae angen i ni weld o ble mae incwm eich sefydliad yn debygol o ddod yn y flwyddyn(blynyddoedd) sy'n ymwneud â'ch cais. Rhowch ddadansoddiad o'r incwm targed a'r incwm wedi'i gadarnhau ar gyfer pob un o'ch ffynonellau cyllid. Efallai y bydd eich tabl yn edrych fel hyn:

| Ffynhonnell yr incwm | Incwm disgwyliedig/ targed | Incwm wedi'i gadarnhau hyd yma | Nodiadau |
|---|---|---|---|
| Contractau/ cyllid statudol | £200,000 | £100,000 | Cyngor lleol heb gadarnhau cyllid newydd hyd yma |
| Incwm arall a enillwyd | £20,000 | £5,000 | Gwerthiannau o fenter gymdeithasol yn parhau |
| Ymddiriedolaethau a Sefydliadau | £150,000 | £75,000 | Sicrhawyd £50,000 gan yr Ymddiriedolaeth genedlaethol a enwir, pum addewid o £5,000 gan Ymddiriedolaethau lleol a enwir. |
| Rhoddion corfforaethol | £20,000 | £10,000 | Sicrhawyd £10,000 gan Gwmni X |
| Rhoddion unigol | £15,000 | £5,000 | Ymddiriedolwyr wedi addo £5,000 |
| Digwyddiadau cymunedol | £20,000 | £10,000 | Incwm gwerthiant cist car |
| Cyfraniad o gronfeydd wrth gefn | £75,000 | £75,000 | Os cynlluniwyd |
| **Cyfansymiau** | **£500,000** | **£280,000** | |

*Gwariant wedi'i gynllunio*
Rhowch ddadansoddiad o faint y mae eich sefydliad yn bwriadu ei wario ar gyfer y flwyddyn(blynyddoedd) sy'n ymwneud â'ch cais. Gall penawdau gynnwys:

- cyflogau
- hyfforddiant
- costau gweithgareddau
- costau swyddfa
- costau adeiladu, adnewyddu, atgyweirio to, deunyddiau (mae'r rhain yn berthnasol i geisiadau cyfalaf)
- rhent/cyfleustodau
- ffioedd cyfreithiol a phroffesiynol
- llywodraethu

Efallai y bydd eich tabl yn edrych rhywbeth fel hyn:

| Eitem gwariant | Swm | Nodiadau |
|---|---:|---|
| Cyflogau | £325,000 | 3 aelod llawn amser a 4 aelod rhan-amser |
| Hyfforddiant | £25,000 | |
| Costau gweithgareddau | £80,000 | Yn cynnwys deunyddiau |
| Costau swyddfa | £20,000 | |
| Costau adeiladu | £5,000 | |
| Rhent/cyfleustodau | £35,000 | |
| Ffioedd cyfreithiol a phroffesiynol | £5,000 | |
| Costau llywodraethu | £5,000 | |
| **Cyfanswm** | **£500,000** | |

Os ydych chi'n gwneud cais am weithgaredd penodol neu brosiect cyfalaf, mae angen i ni hefyd wybod yr incwm a'r gwariant arfaethedig ar gyfer eich prosiect.

| Crynodeb o'r gyllideb | | Nodiadau |
|---|---:|---|
| Cyfanswm y gwariant a gynlluniwyd | £500,000 | |
| Cyfanswm yr incwm a sicrhawyd | £280,000 | |
| **Cyfanswm y diffyg (gwariant – incwm wedi'i sicrhau)** | **£220,000** | |

### Cynllun incwm

Dywedwch wrthym beth mae eich sefydliad yn ei wneud i ariannu ei waith. Dylai hyn gynnwys y gwahanol ffynonellau cyllido rydych chi wedi'u cynnwys yn eich tabl incwm rhagamcanedig. Dywedwch wrthym:

- Pa ymddiriedolaethau a sefydliadau eraill ydych chi'n gwneud cais iddynt?
- Sut ydych chi'n codi arian gan y gymuned leol? (lle bo'n berthnasol)
- Sut ydych chi'n bwriadu cynhyrchu incwm a enillwyd? (lle bo'n berthnasol)
- Ydych chi'n bwriadu defnyddio unrhyw un o'ch cronfeydd wrth gefn ariannol?
- Ydych chi'n derbyn unrhyw incwm contract am ddarparu eich gwasanaethau?

## Eich cais

Rydyn ni’n gwybod bod ceisio 'amcangyfrif maint' eich cais yn gallu bod yn heriol. Nid oes rhaid i chi ofyn am swm penodol o arian, er bod croeso mawr i chi. Byddwch yn glir ynglŷn â beth yw angen ariannol eich sefydliad a beth yw eich diffyg. Mae ein Hymddiriedolwyr yn wneuthurwyr grantiau profiadol. Byddant yn defnyddio eu barn i benderfynu a ydyn nhw'n gallu ariannu eich sefydliad a faint o grant allai fod yn briodol.

### Cynllun B

Rydyn ni’n deall bod codi arian yn anodd, yn enwedig yn yr hinsawdd ariannol bresennol. Rydyn ni eisiau deall beth fydd yn digwydd os na allwch gynhyrchu'r holl arian rydych chi'n bwriadu ei gael.

- A fydd eich gwaith yn gallu mynd ymlaen ond ar lefel is?
- Ydych chi'n gallu gweithio fesul cam?
- A fydd angen i chi ganslo ac ailfeddwl?

Bydd eich cais yn gryfach os gallwn weld bod eich sefydliad wedi meddwl am ei opsiynau, hyd yn oed os yw cynllun A yn well!

## Eich cyfrifon

Mae'n ofynnol i bob elusen gofrestredig, a rhai eithriedig gynhyrchu cyfrifon ariannol bob blwyddyn. Bydd angen i chi roi'r cyfrifon ariannol diweddaraf i ni y mae'n ofynnol i chi eu darparu i'ch Comisiwn Elusennau. Dyma ganllaw cyfeirio cyflym:

- Rhaid i elusennau sydd ag incwm o dan £25,000 gyflwyno ffurflen flynyddol i'r Comisiwn Elusennau, sy'n dangos eu hincwm a'u gwariant ar gyfer eu blwyddyn ariannol ddiwethaf.
- Rhaid i bob elusen gofrestredig sydd ag incwm blynyddol dros £25,000 gynhyrchu adroddiad blynyddol a bod person annibynnol neu gwmni cyfrifyddu ar gael i gynnal naill ai adolygiad neu archwiliad annibynnol o gyfrifon eu helusen. Mae'r rheolau hyn hefyd yn berthnasol i elusennau eithriedig.

Felly, bydd angen i chi gyflwyno un o'r canlynol:

- eich cyfrifon blynyddol, wedi'u hadolygu neu eu harchwilio'n annibynnol
- copi o'ch ffurflen flynyddol y Comisiwn Elusennau

Dywedwch wrthym os oes unrhyw beth anarferol yn eich cyfrifon neu ffurflen sydd angen ei esbonio. Er enghraifft, efallai eich bod wedi derbyn rhodd etifeddiaeth untro neu wedi cael treuliau untro annisgwyl, neu fod  eich cronfeydd wrth gefn wedi'u cronni am reswm penodol.

## Beth sy'n digwydd nesaf

Pethau allweddol i'w cofio:

- Byddwn yn cysylltu â chi drwy e-bost neu ffôn, felly gwnewch yn siŵr bod gennym fanylion cyswllt cyfredol ar gyfer eich sefydliad bob amser.
- Os cynigir grant i chi, byddwn yn anfon ein telerau ac amodau atoch ac yn gofyn i chi gyflwyno manylion banc eich sefydliad trwy eich cyfrif ar-lein.
- Bydd eich grant yn cael ei dalu i gyfrif banc eich sefydliad o fewn 10 diwrnod gwaith. Os cynigir addewid i chi, bydd ein e-bost yn nodi’n glir unrhyw amodau penodol y mae'n rhaid eu bodloni cyn y gallwch ofyn i'ch addewid gael ei chyflawni.
- Mae pob penderfyniad yn cael ei wneud gan ein Hymddiriedolwyr.
- Ar ôl i'ch cynnig gael ei ystyried gan yr Ymddiriedolwyr, ni fyddwch yn gallu gwneud cais arall nes bod o leiaf 12 mis wedi mynd heibio ar ôl dyddiad yr e-bost a roddodd y canlyniad.

Dymunwn bob llwyddiant i chi yn eich gweithgareddau codi arian a'ch holl waith da. Edrychwn ymlaen at ddarllen eich cais yn fuan.